CO19118 Pen-y-lan

Heol Albany - Trafalgar Road

(Cyffordd ar fwrdd arafu a chroesfan sebra)

Adroddiad am yr Ymgynghoriad

Ebrill 2021

Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 19/03/2021 a 9/04/2021. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol os yn bosib.

Nod y prosiect yw creu amgylchedd priffyrdd mwy diogel trwy leihau cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau i gerddwyr. Bydd y gwelliannau hyn o fudd i gerddwyr ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer teithio llesol.

Gweithgareddau Ymgynghori

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Dosbarthu llythyron i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun
- E-bost at randdeiliaid ac ymgyngoreion statudol
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor

Canlyniadau'r Ymgynghoriad

O'r 73 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy, derbyniwyd 8 ymateb unigol.

O Blaid - 6

Yn Erbyn 2

Sylwadau Cefnogol

Croesawodd nifer o drigolion y newidiadau arfaethedig, gan ddweud y byddai'r cynnig yn lleihau cyflymder cerbydau ac yn ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel croesi'r ffordd.

Materion Penodol

Nodir materion penodol a godwyd drwy'r ymgynghoriad isod gydag ymateb y

Cyngor, lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

Mater	Ymateb
Codwyd y bydd yr adeiladau'n creu mwy o byllau pan fydd yn bwrw glaw ac mae'r draeniad eisoes yn wael.	Bydd ymchwiliad trylwyr i'r cynllun yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio fanwl, a bydd hyn yn cynnwys arolwg draenio llawn.
Mynegwyd pryderon y byddai'n creu mwy o dagfeydd ar Heol Albany drwy osod bwrdd arafu.	Drwy weithredu'r cynllun teithio llesol hwn, dylai hyrwyddo mwy o gerdded a beicio a ddylai, i bob pwrpas, arwain at lai o ddefnydd ar geir gan leihau tagfeydd.

Canlyniad yr Ymgynghoriad

O ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus cynigir **i fwrw ymlaen** â'r cynnig fel y dangosir ar y cynllun amgaeedig.